

CYPE(5)-02-21- Papur i'w nodi 1

Julie James AS/MS  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

Kirsty Williams AS/MS  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-4478-20

Lynne Neagle, AS  
Cadeirydd – y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

[SeneddCYPE@senedd.cymru](mailto:SeneddCYPE@senedd.cymru)

Copi at:  
John Griffiths AS  
Cadeirydd – y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

6 Ionawr 2021

[SeneddCommunities@senedd.cymru](mailto:SeneddCommunities@senedd.cymru)

Annwyl Lynne,

Diolch ichi am eich llythyr 20 Tachwedd ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22.

Roedd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn glir yn y gyllideb ddrafft mai un o'r dewisiadau anodd yr ydym wedi'u hwynebu wrth bennu ein cynlluniau gwario ar gyfer y flwyddyn nesaf yw ein hymagwedd at dâl y sector cyhoeddus. Y gwir amdani yw na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol trwy Fformiwla Barnett i ddarparu ar gyfer dyfarniadau tâl ar draws y sector cyhoeddus y flwyddyn nesaf o gofio penderfyniad Llywodraeth y DU i rewi codiad cyflog y sector cyhoeddus, ac eithrio'r GIG a'r rhai ar y cyflogau isaf. Bydd goblygiadau dyfarniadau tâl yn 2021-22 yn gorfod cael eu hymgorffori o fewn gwaith cynllunio cyllideb yr awdurdodau lleol yng ngoleuni'r Setliad. Mae ein penderfyniadau yn y gyllideb yn targedu cymaint o gymorth ag y gallwn at iechyd a llywodraeth leol i gefnogi pwysau mewn gwasanaethau rheng flaen gan ganolbwyntio ar ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Er na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y DU ar gyfer tâl y sector cyhoeddus, wrth benderfynu ar ddsbarthu cyllid ar draws yr awdurdodau lleol ar gyfer setliad llywodraeth leol, rydym wedi cydnabod y penderfyniadau a wnaed ar gytundeb tâl athrawon a'r ymrwymiad a wnaed gan lywodraeth leol i ariannu'r cytundeb hwn trwy gyfeirio cyllid at y rhan o'r fformiwla sy'n ymwneud ag ysgolion.

At ei gilydd (ac eithrio trosglwyddo cyllid ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol), bydd llinell sylfaen y setliad yn cynyddu £176 miliwn mewn termau arian parod yn 2021-22. Mae

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hyn yn adlewyrchu cynnydd mwy yn y Grant Cynnal Refeniw (RSG) i ddigolledu ar gyfer gostyngiad mewn casglu Ardrethi Annomestig, a achosir yn bennaf gan effaith y pandemig.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, defnyddir y gwariant y mae'r awdurdodau lleol yn ei gyllidebu i bennu maint cymharol sectorau'r Asesiad o Wariant Safonol (SSA). Ar gyfer 2021-22, i gydnabod cytundeb tâl athrawon ar gyfer 2020/21, rydym yn cyfeirio £19.973 at sector SSA gwasanaethau ysgolion, i athrawon mewn ysgolion a gynhelir o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 11, cyn rhannu gweddill y cynnydd ar draws y sectorau SSA.

Cyfrifwyd y ffigur o £19.973 miliwn fel a ganlyn (ac mae'n cynnwys y sefyllfa ddiweddaraf ar bensiynau athrawon):

- Roedd £13.148m = y pum mis o'r elfen 2.6% <sup>1</sup>o gytundeb tâl 2020/21 nad oedd eisoes yn llinell sylfaen setliad 2020-21 (7 mis, gan gynnwys Medi 2020 i Fawrth 2021, eisoes yn y llinell sylfaen, ar werth o £18.4m yn setliad 2020-21).

*p/lws*

- £6.825m = 12 mis llawn o elfen 0.5%<sup>2</sup> o gytundeb tâl 2020/21, nad oedd unrhyw ran ohono yn llinell sylfaen setliad 2020-21 (mae 7 mis ohono'n cael ei dalu fel grant penodol, gan gwmpasu Medi 2020 i Fawrth 2021, ar gost o £3.981m)

Diben cyfeirio'r cyllid at rannau penodol o'r fformiwla yw sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddsbarthu yn y ffordd fwyaf priodol, i gydnabod y pwysau y mae'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu. Nid yw'n ffordd o bennu faint o gyllid sydd yn y setliad ar gyfer diben penodol. Felly, ni fyddai'n gywir siarad yn nhermau cyfrannau o gyllid sydd wedi'u cynnwys at ddiben penodol.

O ran pensiynau athrawon, nid oes unrhyw gyllid ychwanegol yn y setliad hwn yn benodol at y diben hwnnw. Mae'r cyllid a oedd yn cael ei ddarparu trwy setliad 2020-21 yn aros yn y llinell sylfaen ac yn cael ei ddsbarthu yn ôl y fformiwla ehangach sy'n seiliedig ar anghenion.

Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth wrth asesu'r pwysau ar yr awdurdodau lleol.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

---

<sup>1</sup>2.6% oedd amcangyfrif gorau y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o chwyddiant adeg y cyfrifiad  
<sup>2</sup> 0.5% i gydnabod y gwahaniaeth rhwng amcangyfrif y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2.6%) a'r cynnydd cyffredinol o 3.1% i'r bil cyflogau